

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport	3

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Grwpiau Ymateb Cyntaf First Responder Groups

Q6 Glyn Davies: What plans does the Minister have to promote first responder groups across Wales? OAQ0418(HSS)
Transferred for written answer.

C6 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyrwyddo grwpiau ymateb cyntaf ledled Cymru? OAQ0418(HSS)
Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): The Welsh Ambulance Services NHS Trust is currently evaluating the effectiveness of the existing first responder schemes. As part of this process, the Trust is considering issues relating to training, clinical governance and management. The development of future schemes will depend on the outcome of this evaluation.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wrthi'n gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau ymateb cyntaf sydd eisoes ar waith. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried materion hyfforddi, llywodraethu clinigol a rheoli. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad hwn yn llywio datblygiad unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

*Atebwyd cwestiynau 7 i 9 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 7 to 9 were answered in Plenary.*

Diffygion Ariannol Cyrff Iechyd Financial Deficits of Health Bodies

Q10 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the financial deficits of health bodies? OAQ0383(HSS)

C10 Helen Mary Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiffygion ariannol cyrff iechyd? OAQ0383(HSS)

Brian Gibbons: NHS organisations are issued annual budgets the previous

Brian Gibbons: Mae sefydliadau'r GIG yn cael cyllidebau blynyddol yn ystod y mis

December, and develop annual service and financial framework plans with NHS Trusts. These, and any associated budgetary pressures, are reviewed by Welsh Assembly Government officials. Budgetary pressures are also discussed during my regular meetings with NHS chairs.

Rhagfyr blaenorol, ac maent yn paratoi cynlluniau fframwaith gwasanaeth a chyllid blynyddol gydag Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r cynlluniau hyn, ynghyd ag unrhyw bwysau cyllidebol perthnasol. Yr wyf hefyd yn trafod pwysau cyllidebol yn fy nghyfarfodydd rheolaidd â chadeiryddion y GIG.

Taliadau Presgripsiwn Trawsffiniol Cross-border Prescription Charges

Q11 Carl Sargeant: Will the Minister make a statement on cross-border prescription charges? OAQ0387(HSS)

C11 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am daliadau presgripsiwn trawsffiniol? OAQ0387(HSS)

Brian Gibbons: Since 1 August, the benefit of the lower Welsh prescription charge has only applied to patients issued with Welsh prescription forms. This prevents health tourism, but throws up some cross-border issues. These are difficult to resolve, but we continue to investigate possible solutions in a pragmatic and non-dogmatic way.

Brian Gibbons: Ers 1 Awst, clefion â ffurflen bresgripsiwn Gymreig yn unig sydd wedi gallu manteisio ar y tâl presgripsiwn is yng Nghymru. Mae hyn yn atal twristiaeth iechyd, ond mae'n codi rhai materion trawsffiniol. Mae'r rhain yn anodd i'w datrys, ond yr ydym yn parhau i ymchwilio i atebion posibl mewn ffordd ymarferol ac annogmataidd.

Ymddiriedolaeth GIG Abertawe Swansea NHS Trust

Q12 Peter Black: Will the Minister make a statement on the financial position of the Swansea NHS Trust? OAQ0386(HSS)

C12 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa ariannol Ymddiriedolaeth GIG Abertawe? OAQ0386(HSS)

Brian Gibbons: Swansea NHS Trust reported total income of £335,690,000 for 2004-05 and achieved a balanced financial position, as they have in previous years.

Brian Gibbons: Cyfanswm incwm Ymddiriedolaeth GIG Abertawe yn 2004-05 oedd £335,690,000 ac fe lwyddodd i sicrhau bod ei sefyllfa ariannol yn gytbwys, fel ag y gwnaeth mewn blynyddoedd blaenorol.

Iechyd Deintyddol Ymhlith Plant Dental Health Among Children

Q13 Jocelyn Davies: What plans does the Minister have to improve dental health among children? OAQ0381(HSS)

C13 Jocelyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella iechyd deintyddol ymhlith plant? OAQ0381(HSS)

Brian Gibbons: The Assembly Government invests considerable sums in initiatives to promote the importance to children and their families of adopting a healthy lifestyle, a balanced diet and regular tooth-brushing with fluoride toothpaste. Establishing good health in our children will help the fight against

Brian Gibbons: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi symiau sylweddol mewn mentrau i hyrwyddo i blant a'u teuluoedd bwysigrwydd ffordd iach o fyw, deiet gytbwys a glanhau dannedd yn rheolaidd â phast dannedd fflworid. O feithrin arferion iechyd da ymhlith ein plant,

poor oral health in later life.

gall eu helpu i frwydro yn erbyn problemau iechyd y geg yn ddiweddarach yn eu hoes.

Amseroedd Aros yng Nghymru Waiting Times in Wales

Q14 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on waiting times in Wales? OAQ0409(HSS)

C14 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros yng Nghymru? OAQ0409(HSS)

Brian Gibbons: Compared with August 2004, there has been a reduction of 87 per cent in those patients waiting over 12 months for in-patient/daycase treatment and a 45 per cent reduction in those waiting over 12 months for a first out-patient appointment. The target for December 2009 is a total wait of six months.

Brian Gibbons: O'i gymharu â mis Awst 2004, cafwyd gostyngiad o 87 y cant yn nifer y cleifion sy'n aros dros 12 mis i gael triniaeth fel cleifion mewnlol/achosion dydd a gostyngiad o 45 y cant yn nifer y cleifion sy'n aros dros 12 mis i gael apwyntiad cyntaf fel cleifion allanol. Y targed ar gyfer mis Rhagfyr 2009 yw bod cleifion yn aros cyfanswm o chwe mis.

Ymosodiadau ar Staff GIG Attacks on NHS Staff

Q15 Janet Davies: What recent discussions has the Minister held with NHS representatives regarding attacks on NHS staff? OAQ0384(HSS)

C15 Janet Davies: Pa drafodaethau diweddar a fu rhwng y Gweinidog a chynrychiolwyr GIG ynglŷn ag ymosodiadau ar staff GIG? OAQ0384(HSS)

Brian Gibbons: I have had no formal discussions with NHS representatives on this issue but I have discussed the issue informally with a range of NHS staff representatives.

Brian Gibbons: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ffurfiol â chynrychiolwyr y GIG am y mater hwn ond yr wyf wedi trafod y mater yn anffurfiol â nifer o gynrychiolwyr staff y GIG.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Cyfleusterau Cyfieithu ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Translation Facilities for Communities First Partnerships

C13 Gwenda Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad mentrau iaith i gyfleusterau cyfieithu ar gyfer partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru? OAQ0353(CWL)

Q13 Gwenda Thomas: Will the Minister make a statement on the contribution of mentrau iaith to translation facilities for Communities First partnerships in Wales? OAQ0353(CWL)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Ni cheir un model penodol o fenter iaith; mae pob un yn adlewyrchu ei sefyllfa leol ac yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol y gymuned. Mae rhai mentrau iaith, ond nid pob un, yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar lefel gymunedol gyda chyfraddau

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): There is no single model of a menter iaith; each one reflects its local situation and responds to the social and language needs of its community. Some, but not all, mentrau iaith provide translation services at a community level with concessionary rates available for voluntary or

consesiynol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol not for profit organisations.
neu sefydliadau di-elw.

**Fersiwn Gymraeg o Feddalwedd Microsoft
Welsh Language Version of Microsoft Software**

C14 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o'r fersiwn Gymraeg o raglen Microsoft? OAQ0359(CWL)

Alun Pugh: Ers i becynnau iaith Gymraeg Microsoft gael eu lansio ym mis Rhagfyr y llynedd, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi dosbarthu dros 3,000 ohonynt, ac mae 15,000 o ymweliadau wedi bod i'r dudalen ar wefan y bwrdd lle mae modd lawr-lwytho'r pecyn.

Q14 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on the use of the Welsh-language version of Microsoft software? OAQ0359(CWL)

Alun Pugh: Since the launch of Microsoft's Welsh language packs in December 2004, the Welsh Language Board has distributed over 3,000 of them, and there have been 15,000 visitors to the page on the board's website where it is possible to download the pack

**Chwaraeon a Hamdden ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg
Sport and Recreation for the Visually Impaired**

Q15 Laura Anne Jones: Will the Minister make a statement on how he is supporting sport and recreation for the visually impaired? OAQ0379(CWL)

Alun Pugh: We are fully committed, through 'Climbing Higher', to promoting equal access to sport and physical activity. Our Sports Council for Wales, in partnership with the Federation of Disability Sport Wales, is collaborating with the Wales Council for the Blind. The aim is to maximise opportunities for participation by the visually impaired.

C15 Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae'n cefnogi chwaraeon a hamdden ar gyfer pobl â nam ar eu golwg? OAQ0379(CWL)

Alun Pugh: Drwy 'Dringo'n Uwch', yr ydym wedi ymrwymo yn llwyr i hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, mewn partneriaeth â Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru, yn cydweithio â Chyngor Cymru i'r Deillion. Y nod yw rhoi cymaint o gyfle â phosibl i bobl â nam ar eu golwg gymryd rhan.